TREFN GWASANAETH CYFLWYNO PLENTYN

Y mae Oedfa Cyflwyno Plentyn yn addas lle mae dymuniad rhoi diolch i Dduw am y rhodd o blentyn, gan ddeisyf bendith Duw ar fywyd y teulu cyfan, yn y gobaith y bydd, pan fydd yr amser yn addas, yn proffesu ei ffydd drwy fedydd credinwyr.

Yr arfer yw cyflwyno babanod a phlant ym mhresenoldeb y gynulleidfa ar adeg addas yn ystod oedfa'r Sul.

Geiriau o'r Ysgrythur:
Gwrando, O Israel: Y mae'r Arglwydd ein Duw yn un Arglwydd. Câr di yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl nerth. Y mae'r geiriau hyn yr wyf yn eu gorchymyn iti heddiw i fod yn dy galon. Yr wyt i'w hadrodd i'th blant, ac i sôn amdanynt pan fyddi'n eistedd yn dy dŷ ac yn cerdded ar y ffordd, a phan fyddi'n mynd i gysgu ac yn codi.

Deuteronomium 6:4–7

Yr oeddent yn dod â phlant ato, iddo gyffwrdd â hwy. Ceryddodd y disgyblion hwy, ond pan welodd Iesu hyn aeth yn ddig, a dywedodd wrthynt, "Gadewch i'r plant ddod ataf fi; peidiwch â'u rhwystro, oherwydd i rai fel hwy y mae teyrnas Dduw yn perthyn. Yn wir, rwy'n dweud wrthych, pwy bynnag nad yw'n derbyn teyrnas Dduw yn null plentyn, nid â byth i mewn iddi." A chymerodd hwy yn ei freichiau a'u bendithio, gan roi ei ddwylo arnynt.

Marc 10:13–16

Croeso:
Yn enw Iesu Grist croesawn A... a B... *(rhieni/rhiant)* sy'n dymuno rhoi diolch am y rhodd o E… *(enw'r plentyn/plant).* Cyflwynwyd Iesu gan ei rieni yn y Deml. Yn ei dro, cymerodd yntau blant bach yn ei freichiau a'u bendithio. Wrth ddiolch am y rhodd o fywyd ac am ffyddlondeb Duw, ymrwymwn gerbron Duw, gyda'n gilydd, yn rhieni a chynulleidfa, i wneud popeth o fewn ein gallu i feithrin y plentyn hwn yn y ffydd.

Cydlawenhawn am i ni dderbyn E… yn rhodd, a gogoneddwn Dduw, rhoddwr bywyd. Dathlwn fywyd teuluol, a chydnabyddwn mai rhodd i ni yw plant yr ymddiriedwyd eu lles a'u magwraeth i'n gofal ni. A ninnau'n ymwybodol o beryglon y byd a'r pechod a ddaw i darfu ar eu bywyd, gweddïwn yn hyderus y bydd Duw yn eu bendithio a'u cadw.

Cyffeswn a chyhoeddwn fod ein gobaith yn Iesu Grist,
a'n gweddi yw y daw ein plant yn wir ddisgyblion iddo ef.

Geilw Iesu arnom i weld plant fel arwyddion teyrnas Dduw. Mae E… yn arwydd byw fod Duw yn ein derbyn yn ddiamod ac yn tywallt ei gariad a'i ras ar bawb a ddaw ato â dwylo gwag a chalonnau agored.

Darlleniadau

Gellir dewis o blith y canlynol:

"Y mae'r dyddiau'n dod," medd yr Arglwydd, "y gwnaf gyfamod newydd â thŷ Israel ac â thŷ Jwda. Rhof fy nghyfraith o'u mewn, ysgrifennaf hi ar eu calon, a byddaf fi'n Dduw iddynt a hwythau'n bobl i mi. Ac ni fyddant mwyach yn dysgu bob un ei gymydog a phob un ei berthynas, gan ddweud, 'Adnebydd yr Arglwydd'; oblegid byddant i gyd yn f'adnabod, o'r lleiaf hyd y mwyaf ohonynt," medd yr Arglwydd, "oherwydd maddeuaf iddynt eu drygioni, ac ni chofiaf eu pechodau byth mwy.

Jeremeia 31: 31–34

Gwrando, O Israel: Y mae'r Arglwydd ein Duw yn un Arglwydd. Câr di yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl nerth. Y mae'r geiriau hyn yr wyf yn eu gorchymyn iti heddiw i fod yn dy galon. Yr wyt i'w hadrodd i'th blant, ac i sôn amdanynt pan fyddi'n eistedd yn dy dŷ ac yn cerdded ar y ffordd, a phan fyddi'n mynd i gysgu ac yn codi.

Deuteronomium 6:4–7

Yr oeddent yn dod â phlant ato, iddo gyffwrdd â hwy. Ceryddodd y disgyblion hwy, ond pan welodd Iesu hyn aeth yn ddig, a dywedodd wrthynt, "Gadewch i'r plant ddod ataf fi; peidiwch â'u rhwystro, oherwydd i rai fel hwy y mae teyrnas Dduw yn perthyn. Yn wir, rwy'n dweud wrthych, pwy bynnag nad yw'n derbyn teyrnas Dduw yn null plentyn, nid â byth i mewn iddi." A chymerodd hwy yn ei freichiau a'u bendithio, gan roi ei ddwylo arnynt.

Marc 10:13–16

Yr amser hwnnw daeth y disgyblion at Iesu a gofyn, "Pwy sydd fwyaf yn nheyrnas nefoedd?" Galwodd Iesu blentyn ato, a'i osod yn eu canol hwy, a dywedodd, "Yn wir, rwy'n dweud wrthych, heb gymryd eich troi a dod fel plant, nid ewch fyth i mewn i deyrnas nefoedd. Pwy bynnag, felly, fydd yn ei ddarostwng ei hun i fod fel y plentyn hwn, dyma'r un sydd fwyaf yn nheyrnas nefoedd. A phwy bynnag sy'n derbyn un plentyn fel hwn yn fy enw i, y mae'n fy nerbyn i."

Mathew 18:1–5

Meddai Pedr wrthynt, "Edifarhewch, a bedyddier pob un ohonoch yn enw Iesu Grist er maddeuant eich pechodau, ac fe dderbyniwch yr Ysbryd Glân yn rhodd. Oherwydd i chwi y mae'r addewid, ac i'ch plant, ac i bawb sydd ymhell, pob un y bydd yr Arglwydd ein Duw ni ei alw ato."

Actau 2:38–39

Gweddi Ddiolchgarwch

Gweddi fawl a diolch i Dduw, creawdwr bywyd, yn arbennig am rodd y plentyn hwn. Gall hon fod yn weddi ar y pryd neu gellir defnyddio'r weddi hon:

O Arglwydd ein Duw, creawdwr popeth,
rhoddwr bywyd, moliannwn di.
Ti yw rhiant cariadus pawb

ac yn ein llawenydd diolchwn i ti yn awr
am y rhodd o fywyd yn nyfodiad E… i'n plith.
Am y cyfan a roddaist, a'r cyfan a roddi eto drwyddi/drwyddo i ni,
ac am holl addewid y bywyd newydd hwn,
diolchwn i ti.
Am y cariad a'i chenhedlodd/genhedlodd,
am y cariad a'r gobaith a enynnwyd ganddi/ganddo,
ac am y gofal sydd yn ei hamgylchynu/amgylchynu,
dyrchafwn ein mawl i ti,
yn enw ein Harglwydd Iesu Grist. Amen.

Yr Addewidion

Gofynned i'r rhieni/rhiant sefyll

A... a B..., a chwithau yn diolch i Dduw am E…, a derbyn breintiau a chyfrifoldebau bod yn rhieni, a ydych yn addo ei meithrin/feithrin oddi fewn i'r gymdeithas Gristnogol drwy addoliad yr eglwys a'i gwaith ymhlith plant.

Ateb: **Fel disgyblion i Iesu, ydym.**

A ydych yn addo, drwy ras Duw, ei meithrin/feithrin yng nghariad Iesu a'i hamgylchynu/amgylchynu â daioni, cariad a pharch?

Ateb: **Ydym, trwy gymorth Duw.**

Os oes brodyr a chwiorydd i'r plentyn yn bresennol gofynned iddynt:

A wnei di/wnewch chi addo caru
a helpu gofalu am dy/eich chwaer/frawd/brawd?

Ateb: **Gwnawn/Gwnaf.**

Cyferchir y gynulleidfa:
Fel aelodau'r gynulleidfa hon,
yn deulu a ffrindiau,
a ydych yn addo caru a chynorthwyo E…
a'i theulu/deulu,
a thrwy fod yn ffyddlon mewn gweddi
a wnewch chi rannu â hi/ag ef mewn gair a gweithred
y newyddion da am Iesu?
Os ydych yn addo hyn, safwch ar eich traed.

Y Bendithio

Wedi derbyn y plentyn, y mae'r gweinidog yn cyfarch y plentyn, gan ddweud:

E…, cyfarchwn di yn enw'r Arglwydd Iesu
a'th groesawu i gymdeithas pobl Dduw.

Diolchwn i Dduw amdanat.
Boed i ti dyfu'n gryf yng ngwybodaeth a chariad Duw
fel disgybl i Iesu Grist;
a gweddïwn y byddi ryw ddiwrnod
yn gwneud penderfyniad i'w ddilyn drwy ddyfroedd bedydd
a bywyd o dystiolaeth ffyddlon.
Boed i ti feithrin ffrwythau'r Ysbryd
a byw yng nghariad Duw.

Gan osod llaw ar ben y plentyn dyweder:

"Bydded i'r Arglwydd dy fendithio a'th gadw;
bydded i'r Arglwydd lewyrchu ei wyneb arnat,
a bod yn drugarog wrthyt;
bydded i'r Arglwydd edrych arnat,
a rhoi iti heddwch." Amen.

Numeri 6:24–26

Gweddi
Dduw cariad, gweddïwn dros E… a'i theulu/deulu.
Gweddïwn y deuant i adnabod
her, cysur a nerth dy gariad.
Cymer y cyfan a gynigwn i E…,
ein gofal a'n doethineb,
a datguddia dy hun drwyddynt.
Cymer y profiadau a ddaw i'w rhan/ran,
a thrwyddynt llefara dy air.
Wrth i E… dyfu mewn corff, meddwl ac ysbryd,
portha ac arwain hi/ef drwy dy Ysbryd;
tywys hi/ef yn ddiogel drwy gyfnod ieuenctid,
ac arwain hi/ef ymhen amser
i gyffesu 'Iesu yw'r Arglwydd',
trwy Iesu Grist dy Fab a'n Gwaredwr. Amen.

Yna parhaed â gweddill yr oedfa.